**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

8 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd 1984 ("Deddf 1984"), a'r Rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae rheoliadau a wneir o dan adrannau 45B a 45C o Ddeddf 1984 yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol yn y Senedd. Fodd bynnag, yn unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' fel y'i nodir yn adrannau 45Q a 45R o Ddeddf 1984.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4 fel y nodir isod.

*Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol*

Mae’r Rheoliadau hyn yn digwygio’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:

a) darparu bod rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i hunanynysu o dan y Rheoliadau hyn hunanynysu am 10 niwrnod yn hytrach na 14 o ddiwrnodau, a gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn hunanynysu. Er enghraifft, os yw person eisoes wedi mynd heibio 10fed diwrnod ei gyfnod hunanynysu bryd hynny, caiff roi'r gorau i hunanynysu ar unwaith;

b) caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo hunanynysu symud i aelwyd arall yn ystod y cyfnod ynysu, os yw hyn yn unol â'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn.

*Rheoliadau Rhif 4*

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhif 4 er mwyn:

a) darparu bod rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i hunanynysu o ganlyniad i fod wedi cael cyswllt agos â pherson sydd wedi cael prawf positif ar gyfer y coronafeirws hunanynysu am 10 niwrnod yn hytrach na 14 o ddiwrnodau ac er mwyn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn hunanynysu. Er enghraifft, os yw person eisoes wedi mynd heibio 10fed diwrnod ei gyfnod hunanynysu bryd hynny, caiff roi'r gorau i hunanynysu ar unwaith;

b) caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo hunanynysu symud i aelwyd arall yn ystod y cyfnod ynysu os yw hyn yn unol â'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn;

(a) hepgor y gallu i swyddog olrhain cysylltiadau ddatgelu gwybodaeth am gosbau penodedig neu achosion troseddol a ddygir mewn perthynas â chyflawni trosedd o dorri’r gofynion yn ymwneud â gofynion hunanynysu; nid yw’r wybodaeth honno ar gael i swyddogion olrhain cysylltiadau, felly nid oedd angen y ddarpariaeth hon.

Mae Prif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig yn cymeradwyo lleihau'r cyfnod hunanynysu i 10 niwrnod ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y tebygolrwydd o fod yn heintus fel cyswllt ar ôl 10 niwrnod. Diben y diwygiadau eraill i Reoliadau Rhif 4 yw sicrhau bod trefniadau gwarchodaeth yn cael eu parchu a dileu darpariaeth ddiangen.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Mae crynodeb o’r asesiad effaith integredig yn ymwneud â’r ddyletswydd wreiddiol i hunanynysu ar gael yma. Rhagwelir y bydd y gostyngiad yn y cyfnod hunanynysu yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb a hawliau plant. Rhagwelir y bydd yn lleihau'r amser y mae plant a phobl ifanc yn ei dreulio i ffwrdd oddi wrth ddysgu wyneb yn wyneb, yn lleihau'r effaith ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu (sef menywod i raddau anghymesur) ac yn helpu i leihau’r tarfu ar fusnesau.